TŶ'R CWMNÏAU - DATGANIAD POLISI IECHYD A DIOGELWCH

Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 yn gosod rhwymedigaeth statudol ar gyflogwyr i sicrhau iechyd a diogelwch eu gweithwyr wrth eu gwaith, mor bell ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol. Mae'r ddyletswydd hon hefyd yn ymestyn i eraill y gall y gwaith hwnnw effeithio arnynt.

Mae gan weithwyr hwythau ddyletswydd statudol i ofalu amdanynt eu hunain ac eraill y gall eu gweithredoedd neu eu hesgeulustod effeithio arnynt.

Fel y gellir bodloni'r dyletswyddau hyn, bwriadwn sicrhau bod cyfrifoldebau am faterion iechyd a diogelwch yn cael eu neilltuo, eu derbyn a'u cyflawni'n gywir ar bob lefel o fewn fframwaith ein sefydliad.

1. Byddwn, mor bell ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, yn gofalu:

   - bod adnoddau digonol yn cael eu cyflenwi i sicrhau bod modd darparu'n briodol ar gyfer iechyd a diogelwch
   - bod asesiadau risg yn cael eu cynnal a'u hadolygu o dro i dro
   - bod systemau gwaith sy'n ddiogel a heb berygl i iechyd yn cael eu darparu a'u cynnal
   - bod y trefniadau ar gyfer defnyddio, trin, storio a chludo defnyddiau a sylweddau i'w harfer yn y gwaith, yn ddiogel a heb berygl i iechyd
   - bod pob gweithiwr yn cael yr wybodaeth, y cyfarwyddyd, yr hyfforddiant a'r oruchwyliaeth honno sydd angen i sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch yn y gwaith, ynghyd ag iechyd a diogelwch eraill y gall eu gweithredeodd effeithio arnynt
   - lle bynnag y bo hynny'n briodol, y sicrheir gwyliadwriaeth iechyd ar gyfer gweithwyr
   - bod y ffordd y darperir ac y cynhelir ein holl offer trwm, peiriannau a chyfarpar yn ddiogel a heb berygl i iechyd
   - bod amgylchedd gwaith pob gweithiwr yn ddiogel a heb berygl i iechyd, ac y gwneir darpariaeth ddigonol gyda golwg ar y cyfleusterau a'r trefniadau ar gyfer eu lles yn y gwaith
   - bod y gweithle yn ddiogel a bod modd cyrraedd a gadael y gweithle'n ddiogel
   - y trefnir gweithgarwch monitro i gynnal y safonau y cytunwyd arnynt.

2. Dyletswydd pob gweithiwr yn y gwaith yw:

   - bod yn rhesymol ofalus yng nghyswllt eu hiechyd a'u diogelwch eu hun ac iechyd a diogelwch eraill y gall eu gweithredoedd a'u hesgeulustod yn y gwaith effeithio arnynt, a chydweithredu â ni wrth gyflawni'n dyletswyddau statudol
   - peidio â chamarfer nac ymyrryd â dim a ddarperir er mwyn iechyd a diogelwch.

3. Cyffredinol:

   - caiff y Polisi Iechyd a Diogelwch hwn ei adolygu, ei ddiwygio a'i ddiweddaru o leiaf unwaith y flwyddyn yn ôl yr angen. Rhoir gwybod i bob gweithiwr am unrhyw newid o'r fath
   - ceir trefn effeithiol a sefydledig - trefn a gynhelir yn gyson - ar gyfer ymgynghori a hysbysu rhwng y gweithwyr a phob lefel o'r rheolaeth ar bob mater sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles
   - gwelir gwybodaeth gyfeirio fanwl yn y Llawlyfr Gwybodaeth i Weithwyr a gedwir yn yr Adran Iechyd a Diogelwch.

Llofnodwyd .....

Safle ..... PRIF WEITHREDYDD .....

Dyddiad 18 Ebrill 2007

DATGANIAD POLISI 2007

Companies House